# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 18 Mai 2015. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Bob Clay | Adran Etholiadol: | Llansamlet |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliodd cynghorwyr yn Llansamlet gymorthfeydd ar ddydd Gwener cyntaf, a'r trydydd un, bob mis rhwng 5.00pm a 6.00pm yng Nghanolfan Gymunedol Gellifedw, Lôn Gwesyn, ac ar ail a phedwerydd dydd Sadwrn pob mis yng Nghanolfan Ieuenctid Stadwen, Heol Bethel, rhwng 10.30am ac 11.30am. Nid oedd angen apwyntiadau.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 3 | / | 8 | 38 | % |
| Pwyllgor Archwilio | 7 | / | 10 | 70 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 17 | 82 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Cymdeithasol | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALI | 5 | / | 8 | 63 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Pobl | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 15 | / | 16 | 94 | % |
| **CYFFREDINOL** | **58** | **/** | **74** | **78** | **%** |
| | | | | | |
| Cyfarfodydd Craffu: | | | | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Buddsoddi Mewnol | 0 | / | 3 | 0 | % |
| Panel Craffu Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 7 | / | 7 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **7** | **/** | **10** | **70** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Bûm yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Gellifedw ac am ychydig yn Ysgol Gyfun Gellifedw.
Rwy'n mynd i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) yn rheolaidd a chymerwn ran weithredol yng Nghymdeithas Gymunedol Gellifedw.

O fis Rhagfyr 2014, cadeiriais y panel craffu "Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion".

Cyflawnais rôl arweiniol ar Bwyllgor Arbennig y Rhaglen Graffu sy'n archwilio'r broses am nodi safleoedd sipsiwn a theithwyr.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Trwy fy grŵp gwleidyddol a hefyd strwythurau ffurfiol y cyngor, ymgyrchwn dros droi yn ôl at adeiladu tai cyngor; dyna oedd polisi'r cyngor erbyn diwedd y cyfnod hwn.

Euthum i nifer o gyfarfodydd ac roedd yn rhaid i fi dreulio cryn amser ar ddiweddaru Ysgol Lôn-las.

Bu problemau o ran tagfeydd traffig, cludiant cyhoeddus annigonol a pharcio ceir amhriodol yn amlwg.

Parheais i ymdrin â nifer mawr o broblemau o ran yr isadeiledd sydd heb ei fabwysiadu ar ystâd Parc Brynheulog.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Yn ystod y cyfnod hwn rwyf wedi ceisio datblygu arbenigedd manwl o ran polisi tai (yn enwedig adeiladu newydd).

Rwyf hefyd wedi talu sylw agos i'r heriau sy'n codi o effaith poblogaeth sy'n heneiddio ar y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Yn ystod y flwyddyn rwyf wedi mynd i sesiynau briffio a seminarau niferus ar agweddau amrywiol ar wasanaethau'r cyngor.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Wrth i'r cyngor gael ei orfodi i leihau gwariant, mae hyn yn achosi rhwystredigaeth gynyddol ymhlith etholwyr amrywiol y mae ganddynt ddisgwyliadau y dylid, yn eu barn hwy, eu bodloni.

Ar y cyd â'm cydweithwyr ward, rwyf wedi ceisio cynnwys y gymuned o ran cymryd cyfrifoldeb am asedau a gwasanaethau pwysig nad ydynt yn hanfodol.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 12.10.15 |